**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Swyddogaeth Cyngor Llyfrau Cymru “CLLC” yw i hybu diddordeb mewn llyfrau a hybu’r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, a thrwy hynny, gefnogi awduron, cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd.

Croesawn y cyfle i ymateb i alwad y Pwyllgorau am wybodaeth ynglŷn â chynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

1. **Beth, yn eich barn chi, fu effaith cyllideb 2019-20 Llywodraeth Cymru?**

Hon oedd y drydedd flwyddyn lle gwnaeth Llywodraeth Cymru gadw gyllideb CLLC yr un swm, ond llwyddwyd i helpu sector sydd wedi cynhyrchu llawer mwy i’r economi. Mae adolygiad Max Munday (Prifysgol Caerdydd) wedi dangos fod unrhyw fuddsoddiad yn y sector yn creu 0.6 swydd ychwanegol yn yr economi, ac yn cynnal swyddi mewn ardaloedd daearyddol sydd yn wan o safbwynt swyddi sector breifat. Dyma ei sylwadau diweddar: “The publishing sector alone is estimated to directly support £32.7m of Gross Value Added “GVA”, but once account is take of indirect activity supported this total grows to £49.1m. Then every full-time equivalent employee in Welsh publishing directly and indirectly supports £27,540 of Welsh GVA”. Mae grant CLLC yn hanfodol felly i gynnal gweithgaredd economaidd.

Rydym wedi defnyddio’r arian cyfredol i ddarparu hyfforddiant cyllidol i’r cyhoeddwyr, fel eu bod yn fwy ymwybodol o’r sefyllfa ariannol, ac yn ceisio paratoi strategaeth gwytnwch hir dymor i wynebu unrhyw heriau posibl.

Gyda cyllidebau yn aros yr un fath, a phwysau i roi codiadau cyflog yn unol a chwyddiant, arweiniodd hyn at alw i elusennau i dorri gwasanaethau, a blaenoriaethu gwasanaethau hanfodol yn unig. Mae’n bwysig fod staff yn cael codiadau cyflog, ond os bydd hynny yn cael ei ariannu o gyllidebau statig, mae’n mynd i arwain at doriadau mewn swyddi a gwasanaethau yn yr hir dymor.

Roedd 2019-2020 yn heriol oherwydd fod y grant cyfalaf o £30,000 yn annigonol i allu ariannu’r gost o gynnal adeiladau a strwythur technoleg gwybodaeth i gyrraedd gofynion diogelwch seibir. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i bawb fuddsoddi mewn mwy o dechnegau digidol, ond mae cynnal strwythur ddigidol yn yr hir dymor yn hynod o gostus.

Mae Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol yn pwysleisio’r angen i fod yn buddsoddi i ddarparu gwasanaethau yn yr hir dymor. Byddai yn dda cael amlinelliad o gyllid y tair mlynedd nesaf er mwyn gallu paratoi tuag at unrhyw newidiadau posibl.

2. **Pa ddisgwyliadau sydd gennych o gynigion cyllideb ddrafft 2020-21? Pa mor barod yn ariannol yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod?**

Mae ffocws CLLC yn parhau i wneud y buddsoddiad hir dymor fydd yn lleihau costau yn y dyfodol. Mae hyn yn greiddiol i allu wynebu unrhyw doriad yn y grant refeniw yn y dyfodol.

Gan fod telerau staff wedi eu clymu gyda trafodaeth cyflogaeth Llywodraeth Leol, nid yw'r graddfeydd ar gyfer 2020-21 wedi eu negodi eto, ond rydym wedi wynebu codiadau cyflog staff o £50,000 eleni a arweiniodd at golli 2 swydd (fel nad ydym yn gorwario). Mae bygythiad yng nghost gynyddol o ddarparu pensiynau i staff hefyd yn gallu bod yn heriol. Edrychodd CLLC yn fanwl ar gostau, gan wneud toriadau lle y gall, ond mae angen buddsoddi mewn ffyrdd fydd yn arbed arian yn yr hir dymor.

Rydym wedi ceisio paratoi'r cyhoeddwyr y bydd toriadau pellach yn bosibl. Bu adborth eithaf cryf gan y cylchgronau o wneud toriadau yn y flwyddyn, ac mae rhai ohonynt ar gytundeb blwyddyn, yn hytrach na cytundeb pedair mlynedd fel gweddill y cylchgronau.

Gall toriadau fod yn effeithio cyhoeddwyr drwy gynhyrchu llai o gynnwys, awduron – drwy gomisiynu llai o waith a siopau, drwy'r cymorth a ddarperir a'r gwasanaethau o gydlynu gwasanaethau. Mae'n anorfod felly y bydd toriadau yn arwain at golli swyddi a lleihad yn y sector – sydd wedyn yn arwain at lai o fuddsoddi. Os na fydd y sector yn buddsoddi yn y dyfodol, ni fydd yn hyfyw ar gyfer gallu wynebu heriau'r dyfodol, felly bydd toriad byr dymor yn arwain at broblemau hir dymor yn y sector.

**3. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol o ran y meysydd a nodir isod?**

*- Y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar), yn enwedig o ran ariannu byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*

Mae angen i Llywodraeth Cymru sicrhau fod buddsoddiad iechyd yn cael ei wneud gyda cwmnïau yng Nghymru a lleihau'r ffocws ar raglenni cenedlaethol. Mae'r Cyngor Llyfrau yn rhan greiddiol o brosiect Darllen yn Well, lle mae meddygon yn cyfeirio cleifion at lyfrau addas i'w helpu, yn hytrach na rhoi presgripsiwn. Mae'r cyllid yn cael ei anfon i'r Reading Agency (corff wedi ei seilio yn Llundain) sydd yn eu troi yn comisiynu'r Cyngor Llyfrau i wneud y gwaith. Mae elfen felly o arian gweinyddu wedi gadael Cymru oherwydd y ffyrdd mae ffocws penodol ar raglenni ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae darllen yn un o sgiliau sydd yn hanfodol yn y gweithle i gynnal yr economi, ac mae prosiectau megis Stori Sydyn (sydd yn helpu rhai sydd ddim yn arfer darllen) a chyfres Amdani (sydd yn helpu dysgwyr Cymraeg) yn ffyrdd y mae'r Cyngor Llyfrau yn helpu i gyfrannu tuag at wella sgiliau llythrennedd hir dymor.

- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau*

Mae'r Cyngor Llyfrau yn defnyddio gwasanaethau allanol lle bo modd i rannu arbenigedd, fel gwasanaethau paratoi cyflogau ac adnoddau dynol Cyngor Sir Ceredigion. Mae hyn yn golygu nad oes angen prynu arbenigedd allanol, ac yn llwyddo i arwain at leihau baich gwaith i staff. Er hyn, nid oes modd canoli pob gwasanaethau, ond

mae angen i bob corff sydd yn cael ei ariannu weithio at leihau'r nifer o staff sydd yn gweinyddu'r sector – gan ganolbwyntio ar staff sydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

*- Polisïau Llywodraeth Cymru i hybu twf economaidd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb rhywiol, a lliniaru diwygio lles*

Mae ymdrechion i gael twf economaidd drwy atynnu cwmnïau mawr wedi profi i fod yn anghynaladwy, bu'r sector cyhoeddi ac argraffu yn llwyddiannus mewn cynnal swyddi mewn ardaloedd o dlodi economaidd ac ardaloedd gwledig, a hynny fel busnesau SME, ac felly yn gallu ehangu drwy fuddsoddiad ac a sgiliau y gellir eu trosglwyddo i feysydd eraill. Mae cyhoeddi yn rhoi cyfleoedd sylweddol i weithio yn hunangyflogedig drwy sgiliau golygu, dylunio, prawf-ddarllen, cyfieithu ac ymchwil.

Mae CLLC yn darparu gwasanaethau fân-werthwyr, sector sydd yn wynebu cystadleuaeth sylweddol o werthiant ar-lein, treth annomestig yn cynyddu, yn ogystal a rhedeg busnes fforddiadwy tra'r talu cyflog byw. Mae unrhyw doriad i gyllid CLLC yn mynd i arwain at anallu i ddarparu cefnogaeth i siopau annibynnol, sydd o ganlyniad yn creu her sylweddol i'r stryd fawr.

*- Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca, yn enwedig o ran Cyfradd Treth Incwm Cymru*

Nid oes gan Cyngor Llyfrau Cymru sylwadau penodol ar hyn, ond mae'n bwysig fod y diwydiant argraffu a chyhoeddi yn parhau yn gystadleuol gyda chwmnïau mewn rhannau arall o'r Deyrnas Unedig ac o Ewrop.

*- Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o bennu blaenoriaethau a dyraniadau'r gyllideb*

Mae'n bwysig fod y gyllideb yn cael ei dyrannu mewn modd sydd yn gyhoeddus a thryloyw, gyda blaenoriaeth i gyrff sydd yn llwyddo i gyrraedd targedau, ac sydd yn gallu dangos pwy sydd yn cael budd o'r gwariant o fewn y gyllideb. Mae'r portffolio Iechyd ac Addysg yn le lle mae nifer o gyrff yn cael eu hariannu – unai'n uniongyrchol neu'r anuniongyrchol (drwy'r Cynghorau Sir) ac felly mae'n llawer mwy anodd i gael golwg tryloyw ar ba arian sydd yn cael ei wario er mwyn sicrhau nad oes dyblygu.

*- Polisïau Llywodraeth Cymru i gryfhau'r economi a hyrwyddo arloesedd*

Mae'r sector gyhoeddi yn un sydd yn cefnogi Cymru wledig ac yn cynnal nifer o swyddi hunan gyflogedig lle mae angen arloesedd. Mae'r sector gyhoeddi wedi ymateb i'r gofynion am e-lyfrau, er fod y farchnad ar gyfer hyn yn isel ac yn tanseilio model manwerthu traddodiadol, maent yn ceisio gwneud mwy yn y maes yma. Fodd bynnag, mae'r economi yn cael ei danseilio gan nifer o gyrff cyhoeddwyr yn defnyddio gwasanaethau cwmnïau mawr ar draul cwmnïau seiliedig yng Nghymru.

*- Sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y broses o ddatblygu polisïau*

Mae'r Cyngor Llyfrau yn credu fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn holl bwysig i bob polisi, ond mae'r ffordd mae'r sector yn cael ei ariannu yn ei gwneud yn anodd i wneud penderfyniadau hir dymor. Er mwyn gallu darparu gwasanaethau sydd yn ddisgwyliedig yn y ganrif hon, mae'n rhaid wrth fuddsoddiad sylweddol. Rhaid cydnabod nad oes unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael ei gynnig i weinyddu gofynion y Deddf. Cefnogwn argymhelliad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylid craffu ar benderfyniadau er mwyn ystyried eu heffaith ar gyllidebau a fydd ar gael i genedlaethau'r dyfodol a'u heffaith ar eu hansawdd bywyd, ac mae'r Gymraeg yn ran greiddiol o'r hyn sydd yn bwysig i ddarparu i genedlaethau'r dyfodol.

*Wrth gyhoeddi "argyfwng hinsawdd", a yw'n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r her honno a darparu'r adnoddau angenrheidiol.*

Rydym wedi asesu y math o brosiectau fyddai yn help i gynaladwyaeth a’r amgylchedd, ond mae angen gwariant cyfalaf i allu gwneud y math o brosiectau yma. Fel elusen, nid yw’r Cyngor Llyfrau yn gallu ymgeisio am grantiau allanol oherwydd ein bod yn cael ein ystyried yn gorff statudol, ond byddwn yn ymdrech i wneud mwy o geisiadau dros y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd yn sicrhau fod darlith ar bolisïau cynaliadwy yng Nghynhadledd Busnes i’r Cyhoeddwyr fydd ar yr 2il o Hydref. Mae gennym i gyd rôl i sicrhau fod y cyrff rydym yn ariannu yn sicrhau eu bod yn ystyried polisïau cynaliadwy, a gall hyn effeithio ar leihau teithio, lleihau’r gadwyn o gyflenwyr ar draws y byd a hefyd lleihau defnydd o blastig.

**Trafodaeth**
Byddwn yn falch o drafod y pwyntiau hyn, neu unrhyw beth arall ynglŷn â’r ymateb hwn, â Phwyllgorau, Ysgrifenyddion y Cabinet neu Weinidogion os dymunir.